| | |
|---|---|
| Cynulliad Cenedlaethol Cymru<br>Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd | National Assembly for Wales<br>Environment and Sustainability Committee |
| Egwyddorion cyffredinol<br>Bil yr Amgylchedd (Cymru) | General principals of the<br>Environment (Wales) Bill |
| Ymateb gan Parciau Cenedlaethol Cymru | Response from National Parks Wales |
| EB 21 | EB 21 |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Awdurdod
Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro
Parc Llanion, Doc Penfro
Sir Benfro SA72 6DY

Pembrokeshire Coast
National Park
Authority
Llanion Park, Pembroke Dock
Pembrokeshire SA72 6DY
Ffôn/Tel: 0845 345 7275
Ffacs/Fax: 01646 689076
pcap@arfordirpenfro.org.uk
pcnp@pembrokeshirecoast.org.uk
www.arfordirpenfro.org.uk
www.pembrokeshirecoast.org.uk

*Croesawn ohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg*
*We welcome correspondence in English and Welsh*

Clerc y Pwyllgor
Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Drwy'r e-bost, 12fed Mehefin 2015
SeneddEnv@Assembly.Wales

Annwyl Syr/Madam,

**YMGYNGHORIAD AR BIL YR AMGYLCHEDD (CYMRU)**

Diolch i chi am y cyfle i gyflwyno sylwadau ar Bil yr Amgylchedd (Cymru).

Pleser gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Arfordir Penfro, Bannau Brycheiniog ac Eryri yw cyflwyno ymateb ar y cyd fel 'Parciau Cenedlaethol Cymru' a nodir isod.

Dymuna Parciau Cenedlaethol Cymru longyfarch Llywodraeth Cymru ar gyflwyno'r ddeddfwriaeth hon.

**Rhan 1: Rheoli Adnoddau Naturiol**

1. Mae Parciau Cenedlaethol Cymru yn cytuno â'r diffiniad o 'adnoddau naturiol' (Rhan 1, adran 2), ac yn awgrymu y gallai fod yn ddefnyddiol i gynnwys yn benodol yr adnoddau canlynol, o bosibl yn atodol i gategorïau sy'n bodoli eisoes ar y rhestr lle bo hynny'n briodol: ffynonellau ynni adnewyddadwy ac anadnewyddadwy, ffynonellau carbon a sinciau; stociau a llif maetholion.

   Hefyd, tra bydd golwg y dirwedd a'r morwedd, i ryw raddau, yn deillio o'r modd y rheolir adnoddau naturiol, awgrymwn eu bod hwy hefyd yn adnoddau naturiol ac y gellir eu rheoli drwy eu hawl eu hunain.  Am y rhesymau hyn, ac er mwyn cyflawni Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd, dylai tirweddau a morweddau hefyd gael eu cynnwys ar y rhestr.  Byddai hyn yn cyd-fynd â diben y Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd, sef gwarchod, rheoli a chynllunio pob tirwedd, eithriadol a chyffredin, ar lefelau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol.

   Mae Parciau Cenedlaethol Cymru yn croesawu defnyddio egwyddorion y Confensiwn ar Amrywiaeth Biolegol ar gyfer y dull o reoli ar lefel yr ecosystem.  Bydd yr awgrymiadau hyn yn helpu i sicrhau bod gweledigaeth ac ymdrech yn ymestyn y tu hwnt i'r agweddau mwy iwtilitaraidd o reoli adnoddau naturiol.

2. Mae Parciau Cenedlaethol Cymru yn argymell y gallai'r diffiniad o 'reolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol' (Rhan 1, adran 3) fod yn ddefnyddiol i ddiffinio


BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

'ecosystem' o fewn y Bil. Cytunwn â defnyddio'r diffiniad a roddir ym Mharagraff 18 o'r Memorandwm Esboniadol, o Erthygl 2 y Confensiwn ar Amrywiaeth Biolegol: "casgliad deinamig o gymunedau planhigion, anifeiliaid a micro-organeb a'u hamgylchedd anfyw yn rhyngweithio fel uned swyddogaethol”.

3. I ni mae Rhan 1, adran 3 (2) braidd yn aneglur ac o bosibl yn gamarweiniol: mae’n ymddangos fel petai’n awgrymu bod gwytnwch yn nodwedd annibynnol o’r ecosystemau y gellir ei addasu, ond awgrymwn ni bod hyn yn gynhenid i raddau helaeth. Awgrymwn felly bod angen aralleirio’r amcan, gan amlygu diben o leihau pwysau dynol ar ecosystemau fel nad yw eu gwerthoedd a'u swyddogaethau cynhenid yn cael eu cyfaddawdu.

4. Awgrymwn bod Rhan 1, 4 (b.) yn cael ei newid i ddarllen “…gweithredu priodol unrhyw le **ac ar unrhyw adeg**.”

5. Tra’n cytuno bod rheolaeth sy’n seiliedig ar dystiolaeth yn bwysig, mae Parciau Cenedlaethol Cymru yn awgrymu y dylai ‘Egwyddorion rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol’ (Rhan 1, 4 (d.) a 4 (e.)) hefyd ymgorffori’r egwyddor ragofalus a’r angen i ystyried a oes modd dadwneud yr effeithiau ar ecosystemau neu beidio. Dylai sail y dystiolaeth gynnwys diffinio statws cadwraeth ffafriol ar gyfer yr holl gynefinoedd pwysig iawn yng Nghymru.

6. Mae Parciau Cenedlaethol Cymru yn awgrymu y gallai'r eitemau a rifir o dan Rhan 1, adran 4 (g.) ystyried deinameg a datblygiad neu esblygiad ecosystemau (gan gynnwys newid o dan newid yn yr hinsawdd).

7. Mae Parciau Cenedlaethol Cymru ar y cyfan yn croesawu’r cynigion ar gyfer pennu Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol. Mae ffactorau dynol arwyddocaol sy’n effeithio ar fioamrywiaeth a iechyd ecosystemau yn ymwneud â rheoli tir a’r defnydd a wneir o adnoddau morol, ac mae’r prif fuddiannau yn debygol o gael eu gwireddu drwy sicrhau mai’r ffactorau hyn yw ffocws y Polisi. Gallai effeithiau’r Polisi wrth liniaru’r ffactorau hyn gael eu cynnwys ym mesurau llwyddiant adrannau 3 a 4 o'r Bil. Fel arall, neu yn ogystal, gellid eu nodi yn benodol yn y Cynllun Adfer Natur Cymru.

8. Rhan 1, adrannau 9 a 10. Awgrymwn y dylai polisi a chynllunio fabwysiadu ymagwedd sy'n seiliedig ar adnoddau naturiol ac y bydd 'ardaloedd' yn naturiol yn dod i'r amlwg o hyn, fel arteffactau o weithredu polisi yn bragmatig. Er enghraifft, mae dalgylchoedd ac unedau dŵr daear yn sail amlwg ar gyfer penderfyniadau rheoli dŵr. Mae adnoddau eraill yn naturiol yn dameidiog (megis mathau o bridd, coetir), a rhagwelwn y gellid cael polisïau Cymru gyfan, rhanbarth-gyfan neu drawsddalgylch ar gyfer y rhain - hynny yw, ymagwedd thematig.

   Nid yw hyn yn dweud na allai ardaloedd hefyd gael eu defnyddio ar gyfer gweithredu cynlluniau thematig. Er enghraifft, gallai cymeriad tirwedd gael ei ddefnyddio i osod ffiniau ardal, yn debyg iawn i'r modd y mae cynlluniau tirweddau gwarchodedig yn cael eu gweithredu ar hyn o bryd. Yn amodol ar unrhyw sensitifrwydd data, dylai monitro a data arolygon y Sefyllfa Adnoddau Naturiol, yn ddelfrydol, allu dadgyfuno a graddio unrhyw ardal er mwyn gallu targedu mesurau ymyrryd i ychwanegu'r gwerth mwyaf ac er mwyn lleihau costau monitro.

   Bydd Canolfannau Cofnodion Lleol yn allweddol i goladu, gwirio a dosbarthu data.

   Awgrymwn y byddai’r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn fwy priodol fel Adroddiad ehangach ar Sefyllfa Natur i amlygu’r rhestr ehangach o adnoddau naturiol a awgrymir yn ein sylwadau, ac i amlygu bwriad y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol. Mae sefydlu data sylfaenol a data ynghylch tueddiadau, a darparu adnoddau ar gyfer y rhaglenni hyn o fonitro a goruchwylio, yn hanfodol i’w reoli a’i werthuso.

Er ein bod yn cydnabod bod ystod eang o wybodaeth yn cael ei gasglu ar hyn o bryd, nid yw bob amser yn gyflawn nac yn ddigon amserol i allu gwneud penderfyniadau rheoli ar sail gwybodaeth lawn, ac mae adolygu yn ddymunol er mwyn gwasanaethu gofynion statudol a gofynion eraill yn well.

9. Rydym yn croesawu'r cyfeiriadau at y parciau cenedlaethol fel mannau lle mae materion ecolegol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yn effeithio'n uniongyrchol ar y broses o wneud penderfyniadau ar y raddfa briodol (para. 41 o'r Memorandwm Esboniadol).

10. Mae Rhan 1, adran 10(6) (a.) a (b.) yn darparu ar gyfer ystyried cynlluniau tirweddau gwarchodedig, ymhlith cynlluniau eraill, yng nghyd-destun cynlluniau adnoddau naturiol, ac mae Parciau Cenedlaethol Cymru yn croesawu hyn. Mae Rhan 1, adran 12 yn darparu ar gyfer rhoi'r hawl i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i gyrff cyhoeddus fynd i'r afael â materion o fewn Datganiad Ardal. Mae Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol â phrofiad o reoli adnoddau naturiol, ond mae ganddynt swyddogaethau ychwanegol, yn enwedig cadwraeth y dreftadaeth ddiwylliannol a'r amgylchedd hanesyddol, hybu mwynhad a dealltwriaeth o nodweddion arbennig, y mae'n rhaid eu cymryd i ystyriaeth mewn unrhyw gynlluniau ar gyfer neu sy'n effeithio ar y dirwedd warchodedig. Ar ben hynny, mae Parciau Cenedlaethol Cymru yn awgrymu na fyddai'r swyddogaethau ychwanegol hyn yn cael eu gwasanaethu'n awtomatig gan gynllun adnoddau naturiol. Fodd bynnag, gallai'r rôl o gynllunio adnoddau naturiol gael ei ymestyn er mwyn cynnwys y swyddogaethau hyn, gan ddefnyddio cynlluniau tirweddau gwarchodedig fel model, a thrwy hynny sicrhau rheolaeth integredig o dirweddau Cymru. Gallai'r cynlluniau hyn hefyd gynnwys ymrwymiadau'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn fyr, awgrymwn y gallai Cynlluniau Rheoli y Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol ymgymryd â rôl Datganiadau Ardal ar gyfer eu hardaloedd, gan gwmpasu 25% o arwynebedd tir Cymru. Gofynnwn i'r Pwyllgor argymell gwelliant fydd yn galluogi Llywodraeth Cymru neu Gyfoeth Naturiol Cymru i ddirprwyo'r cyfrifoldeb am baratoi Datganiad Ardal i gorff arall. Byddai hyn yn galluogi Awdurdod Parc Cenedlaethol i arwain y gwaith o baratoi Datganiad Ardal gyfer y Parc Cenedlaethol ac os yn briodol yr ardal o gwmpas.

11. Byddem yn croesawu eglurhad ar sut y byddai Datganiadau Ardal yn ymwneud â'r cynlluniau cenedlaethol megis y Cynllun Adfer Natur, a phrosesau megis dynodi safleoedd a warchodir. Byddai Parciau Cenedlaethol Cymru yn falch i drafod ymhellach y dulliau cynllunio a'r cynnwys. Roedd ymateb Parciau Cenedlaethol Cymru i Gam 1 yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru yn awgrymu bod angen adolygu adran 62ii o Ddeddf yr Amgylchedd 1995, sef dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i roi sylw i ddibenion Parc Cenedlaethol, i'r perwyl "Wrth ymarfer neu gyflawni unrhyw swyddogaethau mewn perthynas â, neu sy'n effeithio ar, dir mewn Parc Cenedlaethol, rhaid i unrhyw awdurdod perthnasol gefnogi Cynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol a fabwysiadwyd o dan adran 66 (2) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 ac adrodd yn flynyddol ar sut y mae hyn wedi cael ei gyflawni". Awgrymwn y bydd angen gofyniad tebyg mewn perthynas â chymorth i gefnogi Datganiadau Ardal a gwella sefyllfa byd natur.

12. Rhan 1, adran 6. Mae Parciau Cenedlaethol Cymru yn croesawu'n gynnes y cynnig i gryfhau'r ddyletswydd bioamrywiaeth, a hyrwyddo gwytnwch ecosystemau, ar awdurdodau cyhoeddus ac ymgymerwyr statudol yng Nghymru a'i bod yn ofynnol i ddangos y cydymffurfir â'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol. Awgrymwn bod y diffiniad o "bioamrywiaeth" a roddir ym mharagraff 56 o'r Memorandwm Esboniadol yn cael ei gynnwys yn y Bil. Mae Parciau Cenedlaethol Cymru yn croesawu'r flaenoriaeth a roddir yn y Memorandwm Esboniadol i'r rhyngberthynas rhwng bioamrywiaeth ac ecosystemau a'r ddealltwriaeth a ddangosir ar sut y mae'r berthynas hon yn llywodraethu'r holl faterion eraill.

Awgrymwn bod angen gofal gyda rhai termau: mae i "amrywiaeth" ecolegol a "chyfoeth" ystyron penodol.

13. Rhan 1, adran 16. Mae Parciau Cenedlaethol Cymru yn cefnogi'r cynigion bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael pwerau ehangach i wneud cytundebau rheoli tir a chael pwerau arbrofol ehangach y tu hwnt i'r rhai sydd ganddynt ar hyn o bryd. Awgrymwn y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru angen adnoddau ariannol a staffio digonol i dyfu – ac yn bwysig, i gynnal – portffolio o gytundebau rheoli yn y tymor hir, ac i fynd ar drywydd dulliau arbrofol, gan gynnwys, lle bo hynny'n berthnasol, mentrau trawsffiniol. Mae profiad ym mharciau cenedlaethol Cymru yn dangos bod cryn le i ategu ac ychwanegu gwerth yn lleol at y cynlluniau cenedlaethol amaeth-amgylcheddol (sydd o anghenraid yn strategol), a hefyd i annog rheolwyr tir i ymuno â chynlluniau cenedlaethol drwy ddarparu dulliau lleol gam-wrth-gam. Ymhlith yr enghreifftiau mae'r Prosiect Adfywio Ucheldir y Mynydd Du ym Mannau Brycheiniog, y prosiect Gwarchod y Parc ym Mharc Arfordir Penfro, a ffermio sensitif i ddalgylch afon yn nalgylchoedd Llyn Tegid yn Eryri.

    Bydd gallu Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu Datganiadau Ardal a'u rhoi ar waith gyda phartneriaid, angen adnoddau. Mae'r rhain yn dangos yr hyn y gellir ei gyflawni drwy gydweithio a phartneriaethau: nid yw'n ofynnol cael pwerau newydd bob tro. Roedd cydweithio ardderchog gyda phartneriaethau lleol a rhanbarthol yn swyddogaeth uchel ei gwerth y cyrff a unwyd i ffurfio Cyfoeth Naturiol Cymru, ac mae parhau â hyn yn hanfodol os yw Datganiadau Ardal i ychwanegu gwerth o ran arbrofi, cael mynediad i gyllid strwythurol, partneriaethau ac yn y blaen.

**Rhan 2: Newid yn yr Hinsawdd**

14. Rhan 2, adran 29. Mae Parciau Cenedlaethol Cymru yn croesawu'r cynigion ar gyfer y targed 2050 a chyflawni gofynion Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008. Awgrymwn y dylai holl allyriadau yng Nghymru gael eu cynnwys; bydd hyn yn fodd i Lywodraeth Cymru roi pwysau i geisio gostyngiadau mewn allyriadau lle nad yw cymhwysedd wedi ei ddatganoli. Cymerwn y bydd allyriadau o fewn cymhwysedd sydd wedi ei ddatganoli yn cynnwys y rhai a gynhyrchir yn annomestig, h.y. y tu allan i Gymru.

15. Mae Parciau Cenedlaethol Cymru yn cytuno â'r darpariaethau a nodir yn Rhan 2, adran 42(2). Byddai rhestr strategol o ffynonellau carbon, sinciau a fflycsau yng Nghymru yn gymorth i sefydlu lle gellir cael y budd mwyaf, a lle mae angen cael mesurau diogelu ychwanegol.

16. Ni all Parciau Cenedlaethol Cymru gymharu cyllidebu carbon yn erbyn dulliau targedu 3% o ostyngiad blynyddol mewn allyriadau. Fodd bynnag, awgrymwn bod y dull o leihau 3% â'r fantais o roi eglurder a chysondeb ar gyfer cynllunio i'r dyfodol ac yn gwneud datganiad o fwriad clir ac estynedig.

17. Rhan 2, adran 42. Mae Parciau Cenedlaethol Cymru yn cytuno â'r cynigion i fynd i'r afael â methiant i gyrraedd targedau.

18. Rhan 2, adran 44. Mae Parciau Cenedlaethol Cymru yn croesawu'r cynigion ar gyfer corff cynghori annibynnol ar newid yn yr hinsawdd. Awgrymwn bod ganddo nifer o dasgau, gan gynnwys pennu targedau ar gyfer lleihau allyriadau a chyfyngiadau ar newidiadau derbyniol ar gyfer pob sector perthnasol, cynghori Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru ar gyfleoedd masnachu allyriadau, a chynorthwyo Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu prosiectau masnachu allyriadau, megis Taliadau sy'n seiliedig ar dir ar gyfer prosiectau Gwasanaethau Ecosystemau.

**Rhan 4: Casglu a Gwaredu Gwastraff**

19. Rhan 4: Mae Parciau Cenedlaethol Cymru yn cytuno y dylai fod yn ofynnol i eiddo annomestig roi eu gwastraff allan i'w gasglu yn unol ag unrhyw ofynion gwahanu a

nodir gan Lywodraeth Cymru a bod angen i Lywodraeth Cymru gael pwerau ehangach i wahardd peth gwastraff y gellir ei ailgylchu rhag cael ei losgi.

20. Rhan 4: Mae Parciau Cenedlaethol Cymru ar y cyfan yn cefnogi'r cynigion i gynyddu'r cyfraddau ailgylchu ac adfer ynni o wastraff a lleihau tirlenwi. Fodd bynnag, dylid cymryd i ystyriaeth yr hierarchaeth gwaredu gwastraff gyda mwy o ffocws ar leihau gwastraff.

**Rhannau 5 a 6: Trwyddedu Morol a Physgodfeydd ar gyfer Pysgod Cregyn**

21. Rhan 5. Mae Parciau Cenedlaethol Cymru yn croesawu'r cynigion i ddiwygio Rhan 1 o Ddeddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967 ac o'r farn bod eu cynnwys yn y Bil yn werthfawr.

22. Rhan 6: Mae Parciau Cenedlaethol Cymru ar y cyfan yn cefnogi'r egwyddor o adennill costau mewn perthynas â thrwyddedu morol.

**Rhan 7: Llifogydd ac Erydu Arfordirol a Draenio Tir**

23. Rhan 7, adran 82. Mae'n ymddangos bod y cynigion mewn perthynas â Phwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol ar gyfer Cymru yn symleiddio ac yn ehangu'r trefniadau presennol.

24. Rhan 7, adran 85. Mae Parciau Cenedlaethol Cymru yn cefnogi'r cynnig bod asiantau Llywodraeth Cymru yn cael pwerau mynediad i lefydd lle mae mynediad wedi ei wrthod fel modd o benderfynu a gydymffurfir â gorchmynion y Tribiwnlys Tir Amaethyddol. Mae Parciau Cenedlaethol Cymru yn gweld y cynnig hwn fel modd o sicrhau gwell mesurau o ddiogelu adnoddau pridd, ansawdd dŵr ac eiddo yr effeithir arnynt.

**Cwestiwn Cyffredinol**

25. Mae Parciau Cenedlaethol Cymru ar y cyfan yn croesawu'r gyfres o ddeddfwriaeth sy'n cael eu cynnwys yn y Bil Amgylchedd (Cymru), Bil Cynllunio (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

26. Mae Parciau Cenedlaethol Cymru o'r farn bod y cysylltiadau rhyngddynt yn glir. Fodd bynnag, awgrymwn bod cysylltiadau ychwanegol i gael eu gwneud rhwng adroddiadau Datganiadau Ardal / Sefyllfa Adnoddau Naturiol a Pholisi Cynllunio Cymru / cynlluniau lleol (gan gynnwys cynlluniau datblygu lleol). Dylai hyn alluogi integreiddio a symleiddio.

Diolch i chi unwaith yn rhagor am y cyfle i gyflwyno sylwadau. Os oes angen unrhyw eglurhad arnoch, cofiwch gysylltu â mi.

Yn gywir,



Tegryn Jones
Prif Weithredwr Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Ar ran **Parciau Cenedlaethol Cymru:** Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.